

**Drafft ymgynghorol**



# Gweithio gyda'n gilydd i gael dyfodol tecach

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor

Bro Morgannwg 2020 – 2024

Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill,

Er enghraifft: ffont mwy o faint; ar bapur lliw gwahanol

Gallwch ofyn am y ddogfen hon yn Gymraeg neu yn Saesneg.

# **Gweithio gyda'n gilydd i gael dyfodol tecach**

## **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bro Morgannwg 2020 – 2024**

### **Cynnwys**

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol</b>	<b>3</b>
<b>Cyd-destun</b>	<b>5</b>
<b>Bro Morgannwg a'n Cyngor</b>	<b>5</b>
<b>Gweledigaeth a gwerthoedd</b>	<b>6</b>
<b>Datblygu'r cynllyn hwn</b>	<b>7</b>
<b>Amcanion cydraddoldeb – cyflawniadau</b>	<b>15</b>
<b>Amcanion cydraddoldeb – yr hyn y byddwn yn ei wneud</b>	<b>26</b>

## Cyflwyniad

Mae'n bleser mawr iawn gennyf gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2020-2024 – **'Gweithio gyda'n gilydd i gael dyfodol tecach'**.

Mae cynghorau'n chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cyrraedd pob aelod o'n cymdeithas, gan ystyried amrywiaeth o anghenion. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r agenda cydraddoldeb ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i wireddu ein gweledigaeth o ddyfodol tecach.

Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd, gwrandao a pharchu ein gilydd y gallwn ateb yn llwyddiannus y llu o heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus heddiw. Er mwyn cyflawni'r cynllun hwn a diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau, bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn bellgyrhaeddol. Mae'n cynnwys gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, ein partneriaid mewn iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, yn ogystal â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, cynghorau Tref a Chymunedol, ein cydweithwyr yn yr undebau llafur, a'n cymunedau.

Yn y cynllun hwn, cyflwynwn ein hamcanion cydraddoldeb strategol yng nghyd-destun pedwar amcan llesiant drafft newydd y Cyngor. Credwn fod y rhain yn ategu ei gilydd ac y byddant, gyda'i gilydd, yn cyflawni ein canlyniadau llesiant lleol a'r saith nod llesiant cenedlaethol:

<b>Amcanion Llesiant Drafft</b>	<b>Amcanion Cydraddoldeb Strategol Drafft</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• I weithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• I ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion trigolion a chymunedau lleol</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• I gefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• I gefnogi dysgu a chyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf difreintiedig</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• I gefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• I gefnogi diogelwch a lles pobl gartref ac yn eu cymuned</li></ul>

• I barchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd	• I sicrhau bod amrywiaeth eang o bobl yn gallu mwynhau ein hamgylchedd lleol
--	---

Mae Bro Morgannwg yn ardal amrywiol sy'n cynnwys cymunedau gwahanol iawn gyda dyheadau, anghenion a phryderon gwahanol. Mae ein cynllun yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio er mwyn diwallu'r anghenion hynny, yn mynd i'r afael â phryderon ac yn helpu pobl o bob grŵp gwarchoddedig i gyflawni eu dyheadau. P'un a ydych yn byw neu'n gweithio yn un o'n trefi neu yn un o'n cymunedau mwy gwledig, byddwn yn parhau i ymdrechu i wneud bywyd yn well ac i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar y bobl sy'n byw, yn gweithio, ac yn ymweld yma.

Rydym yn awdurdod uchelgeisiol a blaengar. Rwyf yn hyderus y gall staff, aelodau etholedig, y gymuned a phawb sydd â budd yn y Fro barhau i 'weithio gyda'n gilydd i gael dyfodol tecach'. Fel hyn, gallwn sicrhau bod pob un ohonom yn cyflawni 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'.

**Rob Thomas**

**Rheolwr Gyfarwyddwr**

## Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yw disgrifio'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y ddyletswydd gyffredinol) a'r dyletswyddau penodol i Gymru.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cynnwys wyth nodwedd warchoddedig:

Ailbennu Rhywedd	Cyfeiriadedd Rhywiol
Anabledd	Hil
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Oed
Crefydd neu Gred	Rhyw

Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i Briodas a Phartneriaeth Sifil, ond dim ond er mwyn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru cynghorau fel awdurdodau cyhoeddus sydd â dyletswyddau penodol. Mae hyn yn golygu pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaeth gyhoeddus, rhaid i ni roi sylw dyledus i'r anghenion canlynol:

- i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- i feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Mae'r ddeddf yn egluro bod rhoi sylw dyladwy i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys y canlynol:

- cael gwared ar neu leihau anfanteision mae pobl yn profi oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

- annog pobl gyda nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill ble mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r dyletswyddau penodol yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd er mwyn dangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol. Maent yn cwmpasu:

Amcanion	Hyfforddiant staff
Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol	Caffaeliad
Ymgysylltiad	Adroddiad blynyddol
Asesu effaith	Cyhoeddi
Gwybodaeth gydraddoldeb	Adroddiadau Gweinidogion Cymru
Gwybodaeth gyflogaeth	Adolygiad
Gwahaniaethau cyflog	Hygyrchedd

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn egluro pa gamau rydym yn eu cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

I nodi'r blaenoriaethau, rydym wedi defnyddio ymchwil o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac adborth gan drigolion a sefydliadau sy'n gweithio ym Mro Morgannwg. Rydym hefyd wedi ystyried amcanion cydraddoldeb strategol drafft Llywodraeth Cymru. Rydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau ac yn cyflogi pobl.

## Cyd-destun

Mae'r byd yn newid yn gyflym ac mae'r cyd-destun ar gyfer y cynllun hwn yn wahanol iawn i'r hyn a oedd yn 2016. Yr hyn sy'n dal yr un fath yw'r angen i'r Cyngor ymgysylltu â'r gymuned a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gweithio gyda'n partneriaid a chroesawu newid. Rhaid i ni hefyd ystyried sut y bydd ein gweithredoedd a'n penderfyniadau yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae cyfleoedd a phrofiadau'n amrywio ar draws yr ardal gyda phobl sy'n byw mewn rhai ardaloedd yn profi anfantais ac amddifadedd. Yn ogystal â hyn mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio ac mae angen i ni sicrhau y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion cyfnewidiol y boblogaeth wrth iddynt dyfu'n hŷn. Mae angen i ni feddwl am y gwasanaethau a ddarparwn a sut rydym yn eu darparu. Mae'n rhaid i ni ystyried anghenion amrywiol y boblogaeth boed hynny oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig, amgylchiadau ariannol, neu un o'r nifer o resymau eraill a all effeithio ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl.

## Bro Morgannwg a'n Cyngor

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pawb ym Mro Morgannwg yn cael mynediad teg a chyfartal at y gwasanaethau yma. Rydym hefyd am iddynt gael triniaeth deg a chyson yn eu hymwneud a'u cyflogaeth gyda ni.

Rhaid i'r egwyddorion a ddisgrifir yn y ddyletswydd gyffredinol fod yn sail i'r ystod eang o wasanaethau a ddarparwn. Mae'r rhain yn cynnwys tai, addysg, gofal cymdeithasol, a llyfrgelloedd yn ogystal â gofalu am ein harfordir, ein parciau a'n gerddi.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2020-2024 wedi'i ddrafftio i gysylltu â'r Cynllun Corfforaethol 2020-2025 drafft a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bro Morgannwg, ein gwerthoedd a'n prif flaenoriaethau. Bydd blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn helpu i wneud cymunedau ym Mro Morgannwg yn fwy cyfartal. Bydd yr amcanion cydraddoldeb yn y

Cynllun Cydraddoldeb strategol hwn yn cefnogi'r gwaith hwn a dyna pam y mae amcanion y ddau gynllun wedi'u halinio.

## Gweledigaeth a gwerthoedd

Gweledigaeth ein cyngor yw '**Cymunedau cryf â dyfodol disglair**'.

Mae gennym gyfres o werthoedd corfforaethol sy'n sail i'n gwaith: uchelgeisiol, agored, gyda'n gilydd ac yn falch. Dyma'r hyn y maent yn golygu wrth feddwl am gydraddoldeb a chydweithio i greu dyfodol tecach.

**Uchelgeisiol** Blaengar, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.

O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu cefnogi pobl i gyflawni eu potensial a bywyd da iddyn nhw'u hunain beth bynnag fo'u cefndir neu eu nodweddion gwarchoddedig.

**Agored** Bod yn agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau a wnawn.

O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu siarad â phobl a sefydliadau a all ein helpu i ddeall y problemau a'r rhwystrau i bobl â nodweddion gwarchoddedig. Gallwn wedyn gymryd y rhain i ystyriaeth wrth i ni wneud ein penderfyniadau.

**Gyda'n Gilydd** Gweithio gyda'n gilydd fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, yn parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o ansawdd.

O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol ein trigolion a'n cymunedau.



## Balch

Yn falch o Fro Morgannwg: yn falch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.

O ran cydraddoldeb, mae hyn yn golygu bod pawb yn teimlo eu bod yn byw mewn cymuned lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, yn gallu bod yn falch o bwy ydynt a'r rhan y maent yn ei chwarae i wneud Bro Morgannwg yn lle da i fyw.

Mae ein gwerthoedd yn gyson â'r pum ffordd o weithio sy'n ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent yn rhai tymor hir, maent yn gweithio gyda'i gilydd, ac yn cynnwys gweithio gydag eraill. Bydd ein gwerthoedd yn cefnogi mwy o ffocws ar atal wrth i ni weithio i wireddu ein gweledigaeth.

Mae ein blaenoriaethau cydraddoldeb yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn benodol, bydd yn ein helpu i gyfrannu at nodau llesiant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys creu Cymru fwy cyfartal.

## Datblygu'r cynllun hwn

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i gynhyrchu'r cynllun hwn a'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddiadau ymchwil cenedlaethol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach? 2018 (diweddariad ar ymchwil flaenorol o fewn 'A yw Cymru'n Decach? 2015' ac adroddiad 'Pa mor Deg yw Cymru? 2011');
- gwybodaeth o ddogfennau'r Cyngor megis y Cynllun Corfforaethol;
- gwybodaeth a data lleol;
- ymgynghoriadau;

- adborth oddi wrth bobl sy'n cynrychioli un neu fwy o'r grwpiau gwarchoddedig drwy ymgysylltu ac ymgynghori rhwng Mai 2019 a Thachwedd 2019;
- amcanion cydraddoldeb drafft Llywodraeth Cymru;
- gwybodaeth gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â thystiolaeth genedlaethol o waith ymchwil, wedi llunio'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i gyflawni amcanion cydraddoldeb y Cyngor rhwng 2020 a 2024.

Mae'r wybodaeth ganlynol am y boblogaeth leol yn darparu peth o'r cyd-destun ar gyfer yr hyn sydd angen ei gyflawni. Daw'r data hwn o amrywiaeth o ffynonellau allanol gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Data Cymru a Stats Cymru.

Y data mwyaf cadarn sydd ar gael ar gyfer Bro Morgannwg yw data o Gyfrifiad 2011. Mae data mwy diweddar ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol o 2019. Mae data ar gael ar gyfer nifer o nodweddion gwarchoddedig ar lefel ranbarthol o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, a chyflwynir y data hwn ar gyfer 2015-2017. Cynhyrchir y Cyfrifiad a'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Data Cydraddoldeb

### Ethnigrwydd

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod 126,336 o bobl yn byw ym Mro Morgannwg. O'r rhain, roedd y mwyafrif, 121,838 (96%) yn nodi eu hunain fel Gwyn. Nododd 1,695 (1.3%) eu hunain fel grwpiau ethnig cymysg neu luosog, 1,967 (1.5%) adnabod fel Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, 489 (0.3%) wedi'u nodi fel Du, Affricanaidd, Caribïaidd, neu Ddu Prydeinig a 347 (0.2%) o grwpiau ethnig eraill.

Mae data ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer 2019. Amcangyfrifir bod 4,200 (3.3%) o drigolion Bro Morgannwg yn bobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig.

## **Cenedligrwydd**

Mae ymatebwyr yn gallu dewis sawl ateb mewn ymateb i gwestiwn cenedligrwydd yn y Cyfrifiad. Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod mwyafrif trigolion Bro Morgannwg yn nodi eu bod yn Saeson, yn Gymry, yn Albanaidd, o Ogledd Iwerddon neu'n Brydeinwyr. Nododd (2.4%) fel dim ond cenedligrwydd arall.

Mae data ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer 2019. Amcangyfrifir bod 77,400 (61%) wedi nodi eu hun fel Cymry a 49,500 (39%) fel arall.

## **Y Brif iaith**

Yn ôl Cyfrifiad 2011, nododd 52,443 (98%) o aelwydydd eu bod â'r Gymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith, a 393 (0.7%) o gartrefi yn nodi nad oedd unrhyw un yn yr aelwyd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel prif iaith iddynt.

Mae data ar gael ar gyfer Bro Morgannwg o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer 2019. Amcangyfrifir bod 21% yn siaradwyr Cymraeg.

## **Anabledd**

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod 13,091 (10%) o weithgareddau dyddiol trigolion Bro Morgannwg ychydig yn gyfyngedig. Roedd 12,538 (10%) o weithgareddau dyddiol wedi cael eu cyfyngu'n fawr.

Mae data ar gael ar lefel ranbarthol ar gyfer Cymru ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Ar gyfer De-ddwyrain Cymru rhwng 2015 a 2017, amcangyfrifwyd bod 206,700 (22%) o bobl yn anabl.

## **Oed**

Amcangyfrifodd yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2018 yn seiliedig ar gyfrifiad 2011 fod poblogaeth Bro Morgannwg yn 132,165. Amcangyfrifir bod y mwyafrif o'r boblogaeth, 80,023 (61%), yn 16-64 oed, 27,691 (21%) yn 65 oed a throsodd, a 24,451 (18%) yn 0-15 oed.

## **Rhyw**

Amcangyfrifodd yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2018 yn seiliedig ar gyfrifiad 2011 fod 68,043 (51%) o'r boblogaeth yn fenywaidd a 64,122 (49%) yn wrywaidd.

## **Ailbennu Rhywedd**

Nid oes data dibynadwy ar gael ar hunaniaeth ryw. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn yn nodi cynigion Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer cynnal a chynnwys cyfrifiad 2021. Mae'r cynigion yn cynnwys argymhelliad i gynnwys cwestiwn hunaniaeth ryw wirfoddol i'w ofyn i bobl 16 oed a throsodd.

## **Cyfeiriadedd Rhywiol**

Nid oes unrhyw ddata ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael ar gyfer ardal Bro Morgannwg. Mae data ar gael ar lefel ranbarthol ar gyfer Cymru ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r arolwg poblogaeth blynyddol. Ar gyfer De ddwyrain Cymru rhwng 2015 a 2017, amcangyfrifir bod 1,155,500 (95.8%) o bobl 16 oed a throsodd wedi nodi eu hunain yn heterorywiol neu'n syth, 18,200 (1.5%) yn hoyw neu lesbiaidd, 9,500 (0.8) yn ddeurywiol, a 23,500 (1.9%) heb ymateb.

## **Crefydd a Chred**

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 fod 92,225 (73%) o'r boblogaeth wedi nodi eu hunain fel Cristnogion, 41,564 (32.9%) yn datgan nad oedd ganddynt grefydd, 9,348 (7.4%) heb ddatgan crefydd, ac roedd crefyddau eraill yn cynrychioli llai nag 1% yr un.

Mae data ar gael ar lefel ranbarthol ar gyfer Cymru ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r arolwg poblogaeth blynyddol a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhwng 2015 i 2017, ar gyfer De ddwyrain Cymru amcangyfrifir bod y mwyafrif, 726,300 (48%) o bobl yn Gristnogion, 689,000 (46%) heb unrhyw grefydd, 34,000 (2.2%) yn Fwslim, 41,300 (2.7%) o grefyddau eraill a 3,200 (0.2%) heb ymateb.

## Statws Priodasol

Nid oes unrhyw ddata ar statws priodasol ar gael ar gyfer Bro Morgannwg yn unig. Mae data ar gael ar lefel ranbarthol ar gyfer Cymru ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r arolwg poblogaeth blynyddol a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhwng 2015 i 2017, ar gyfer De ddwyrain Cymru, amcangyfrifir bod y mwyafrif, 574,700 (47%) o bobl yn briod neu mewn partneriaeth sifil, 433,300 (36%) yn sengl, 125,300 (10%) wedi'u hysgaru, gwahanu neu â'u partneriaeth sifil wedi diddymu, a 81,400 (7%) yn weddw neu'n bartneriaeth sifil oedd wedi goroesi.

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ychydig o ddata sydd ar gael ar feichiogrwydd a mamolaeth. Yn 2015, y data mwyaf diweddar a oedd ar gael, roedd 1,333 o enedigaethau byw ym Mro Morgannwg. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer Cymru a Lloegr roedd cyfraddau beichiogi ar gyfer menywod o bob oed yn 2017 yn 76.1 y 1000.

## Economaidd-gymdeithasol

- Amcangyfrifir bod 13% o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm – sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16%.
- Gellir gweld gwahaniaethau gwirioneddol rhwng ardaloedd. Mewn rhai ardaloedd mwy difreintiedig, amcangyfrifir bod 38% o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm.
- Ar gyfer rhai ardaloedd mwy difreintiedig, amcangyfrifir bod 53% o blant yn byw mewn tlodi.
- Mae 80.4% o'r boblogaeth oedran gweithio mewn gwaith, mae 3.4% yn ddi-waith.
- Mae canran y bobl a gyflogir yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 73.1%.

## Gweithio i gefnogi cydraddoldeb

### Ein Cyngor

Mae'r wybodaeth trosodd yn rhoi rhai ffeithiau allweddol am y Cyngor, ei adnoddau a sut mae'r sefydliad yn gweithio i gefnogi cydraddoldeb.

- Er mwyn cefnogi'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, mae'r Cyngor yn dibynnu ar weithlu medrus sy'n cynnwys athrawon, peirianwyr a gweithwyr cymdeithasol.
- Gyda'i gilydd, mae'r Cyngor yn cyflogi dros 5,000 o staff, gan gynnwys y rhai a gyflogir mewn ysgolion.
- Yn arolwg staff 2018, nododd 74% o ymatebwyr eu bod yn falch o weithio i'r Cyngor, dywedodd 70% y byddent yn argymhell y Cyngor fel lle i weithio.
- Mae 57 o ysgolion ar draws Bro Morgannwg, gan gynnwys 7 o ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae gan y Cyngor 3,829 o gartrefi.
- Mae yna 47 o gynghorwyr etholedig, gan gynnwys y Cabinet, sy'n cynnwys Arweinydd y cyngor a chwe Chynghorydd arall.

Mae'n amlwg y bydd y sector cyhoeddus yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y ffordd rydym yn gweithio, yr hyn a ddisgwylir gennym a lefel yr adnoddau sydd ar gael i ni yn destun llawer o newidiadau.

Ein dyletswydd yw sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned, bod pobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a bod y Fro yn ddiogel, yn lân ac yn ardal y mae pobl am eisiau byw a gweithio ynddi ac ymweld â hi.

Mae'r amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cydraddoldeb strategol hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein gweithgareddau dros y pedair blynedd nesaf, gan weithio gyda'n cymunedau lleol ac ar eu cyfer er mwyn diwallu eu hanghenion a'u dyheadau amrywiol.

## **Hyfforddiant**

Rydym yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb fel bod staff yn gwybod sut i ddarparu gwasanaeth teg sy'n diwallu anghenion yr ystod amrywiol o bobl sy'n ei ddefnyddio. Mae'r hyfforddiant corfforaethol a ddarperir yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth cydraddoldeb
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol
- Ymwybyddiaeth Drawsrywiol
- Ymwybyddiaeth Hil
- Ymwybyddiaeth Iaith Arwyddion Prydain

Yn ogystal â'r rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb, ymdrinnir â materion cydraddoldeb mewn hyfforddiant corfforaethol arall, megis hyfforddiant recriwtio. Cedwir golwg ar y rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb i gwmpasu ystod o nodweddion gwarchoddedig.

### **Asesu Effaith**

Mae proses ar waith i werthuso'r effaith debygol ar grwpiau gwarchoddedig o bolisiau neu arferion sy'n cael eu cynnig, eu hadolygu neu eu diwygio. Mae'r broses yn helpu'r Cyngor i ystyried effaith ein gwaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig.

Anogir staff i gasglu a dadansoddi data i weld sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Rydym yn ceisio gwella ar hyn bob blwyddyn drwy gynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu data ac annog gwell dadansoddiad o ddata. Gall staff ddefnyddio'r wybodaeth hon fel rhan o'u sail dystiolaeth mewn asesiadau o effaith ar gydraddoldeb.

Defnyddir y broses hon, er enghraifft, i asesu effaith debygol polisiau ac arferion gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r gyllideb flynyddol. Rydym yn ystyried a oes risg bod ein penderfyniadau yn debygol o gael effaith sylweddol ar grwpiau gwarchoddedig. Os gallwn weld y gallai fod effaith, byddwn yn cynnal asesiad llawn o'r effaith.

Lle ceir effaith sylweddol, cyhoeddir manylion ar wefan y Cyngor.

## Enghreifftiau o arfer da

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol bobl. Rydym yn cyflawni ystod eang o waith sy'n cyfrannu at hyn.

Dyma rai enghreifftiau:

- Mae gennym raglenni gwaith blynyddol gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion hil ymhlith plant mewn ysgolion a gweithdai.
- Rydym yn gweithio gyda Remploy i ddarparu cyfleoedd gwaith.
- Rydym yn cynnal digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocaust blynyddol.
- Rydym yn gweithio tuag at lefelau uwch o safonau anabledd Insport. Rydym wedi ennill y Safon Efydd. Rydym bellach yn gweithio tuag at y safon Arian.
- Mae gennym Fforwm Sipsiwn a Theithwyr sy'n gallu ymateb yn gyflym er mwyn asesu anghenion lles Sipsiwn a Theithwyr pan fyddant yn cyrraedd Bro Morgannwg.
- Rydym yn cefnogi Fforwm 50+ y Fro. Mae hyn yn grŵp ymgysylltu â'r cyhoedd gweithgar iawn sy'n cynnig llais i bobl dros 50 oed.
- Mae tref fwyaf Bro Morgannwg, y Barri, wedi derbyn statws 'Tref Gyfeillgar i Dementia' gan yr Alzheimer's Society. Mae gennym grŵp llywio gweithredol i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein cynllun gweithredu. Mae gennym nifer sylweddol o Gyfeillion Dementia hyfforddedig.
- Mae gennym weithgor cynhwysiant digidol sy'n datblygu strategaeth i gael mwy o bobl ar-lein. Mae ein staff llyfrgell yn hyrwyddwyr digidol sy'n gallu helpu'r cyhoedd gyda'u hymholiadau. Gall y cyhoedd gael mynediad i ystafelloedd cyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd. Mae'r Tîm Dysgu Oedolion yn y gymuned a'r llyfrgelloedd yn cynnig amrywiaeth o raglenni hyfforddiant ar gynhwysiant digidol. Rydym wedi gwella mynediad wi-fi i gartrefi lloches ac yn cynllunio ar gyfer gwneud hyn mewn cartrefi gofal.



- Rydym yn darparu trafndiaeth gymunedol Greenlinks mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae hyn yn cynnwys bysiau y gellir eu defnyddio'n hawdd gan bobl anabl. Mae Greenlinks yn helpu pobl sydd heb drafndiaeth i gael mynediad at wasanaethau ac i ryngweithio'n gymdeithasol.
- Rydym yn darparu bws i sefydliad Dinas Powys Voluntary Concern, sef gwasanaeth cymorth cymunedol ar lawr gwlad. Mae hyn yn helpu i gludo pobl i ganolfan feddygol newydd nad yw'n hawdd ei fynychu.
- Mae gennym TREV (sef 'The Reassurance and Engagement Vehicle') sy'n ein helpu i fynd â gwybodaeth am ddiogelwch allan i'r gymuned.
- Mae gennym gynllun prynu gwyliau blynyddol ar waith ac rydym yn treialu newidiadau i'n system amser hyblyg er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i staff reoli eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith hwn. Gellir dod o hyd i fwy o enghreifftiau o fewn yr [adroddiadau cydraddoldeb blynyddol](#) rydym wedi cyhoeddi ar ein gwefan.

## Amcanion cydraddoldeb – cyflawniadau

Rhwng 2016 a 2020, gwnaed cynnydd da yn erbyn pob un o'r wyth amcan cydraddoldeb presennol. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r hyn a wnaed ar gyfer pob un. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r gweithgaredd hwn wedi helpu i nodi a llywio'r amcanion cydraddoldeb strategol am y pedair blynedd nesaf.

### Amcan Cydraddoldeb 1:

#### **Casglu a dadansoddi data gwasanaeth yn ôl nodweddion gwarchoddedig fel bod gwasanaethau'n diwallu anghenion amrywiol y cyhoedd**

Rydym wedi cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu ac yn dadansoddi data yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Mae gwasanaethau'n edrych ar y wybodaeth hon i weld sut y gallant wella

gwasanaethau i bobl mewn grwpiau gwarchoddedig. Mae gwasanaethau hefyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon wrth feddwl am yr effaith ar gydraddoldeb o'u newidiadau i'w gwasanaethau.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yn yr Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb blynyddol ar wefan y Cyngor.

## **Amcan Cydraddoldeb 2:**

### **Cau'r bylchau cyrhaeddiad plant mewn grwpiau gwarchoddedig**

Rydym wedi canolbwyntio ar gyrhaeddiad y grwpiau canlynol: Disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr; plant sy'n derbyn gofal gan ein hawdurdod lleol; plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol. Yn gyffredinol, mae canlyniadau perfformiad wedi bod yn dda ac yn cymharu'n dda â chyfoedion ledled Cymru. Mae bwlch yn dal i fodoli ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae lleihau hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

### **Gwaharddiadau Ysgol**

Mae canran y disgyblion sy'n agored i niwed a waharddwyd o ysgolion prif ffrwd y Fro wedi parhau'n gyson dros y 2 flynedd ddiwethaf. Yn 2017/18, roedd gostyngiad bach mewn gwaharddiadau o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig a chynnydd bach mewn gwahardd disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol. Cafodd mwy o fechgyn na merched eu gwahardd yn ystod 2017/18. Mae bechgyn tua 4 gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na merched.

Yn yr ysgolion uwchradd, gostyngodd canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a waharddwyd gan fwy na 10% rhwng 2016/17 a 2017/18. Arhosodd cyfraddau grwpiau eraill yn debyg dros yr un cyfnod.

Mewn ysgolion cynradd, bu cynnydd o bron 10% yng nghanran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a waharddwyd rhwng 2016/17 a 2017/18. Roedd cyfran y disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol a waharddwyd wedi bron dyblu yn ystod yr un cyfnod.

Ynghyd ag ysgolion y Cyngor, mae'r Tîm Gwella Ymddygiad, y Gwasanaeth Ieuencid, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, a'r Tîm Allgymorth Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig o Ysgol y Deri oll yn gweithio i gefnogi disgyblion a all fod mewn perygl o gael eu gwahardd.

### **Amcan Cydraddoldeb 3:**

#### **Gwneud dogfennau cyhoeddus yn haws i bobl eu darllen a'u deall**

Mae'r Cyngor yn codi ymwybyddiaeth o ganllawiau iaith glir. Mae canllawiau iaith glir a steil clir ar gael i staff gyfeirio atynt ar fewnwyd y Cyngor. Ceir hefyd arweiniad i ramadeg, geiriadur iaith glir, a chanllaw i atalnodi.

Mae modiwl e-ddysgu yn ymdrin â hanfodion iaith glir. Mae'n rhoi gwybodaeth am gynllunio ymlaen llaw, sut i osgoi iaith gymhleth, bod yn glir ac yn dangos enghreifftiau.

Rydym yn datblygu fframwaith cymhwysedd craidd. Mae gennym gymhwysedd cyfathrebu a fydd yn cynnwys defnyddio iaith glir. Bydd asesu yn erbyn y cymhwysedd hwn yn digwydd yn ystod y broses arfarnu. Bydd cymorth ar gael ar gyfer dysgu pellach lle bo angen.

### **Amcan Cydraddoldeb 4:**

#### **Helpu staff i wybod mwy am gyfraith cydraddoldeb, a staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion grwpiau gwarchoddedig**

Parheir i gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar asesu effaith ar gydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau penodol fel y gymuned fyddar. Mae modiwlau hyfforddiant e-ddysgu ar gael hefyd. Mae'r rhain yn cwmpasu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ac ymwybyddiaeth o drawsrywedd.

Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau a gweithio gyda sefydliadau eraill yn parhau, ac mae wedi cynnwys materion fel iechyd meddwl, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd ac anabledd.

### **Amcan Cydraddoldeb 5:**

#### **Ceisio barn grwpiau gwarchodedig ar newidiadau arfaethedig i bolisiau, cyllidebau a gwasanaethau**

Mae proses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb ar waith. Mae hyn wedi'i adolygu a'i ail-lansio, gyda chysylltiadau i ganllawiau, enghreifftiau, ac ymchwil i helpu swyddogion i gynnal asesiadau effeithiol.

Mae Tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn rhoi cyngor ar ymgysylltu â gwasanaethau. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn cadw rhestr o sefydliadau y gallwn siarad â hwy am anghenion grwpiau gwarchodedig er mwyn cynorthwyo yn y broses hon. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i gael gwybod am farn ac anghenion grwpiau gwarchodedig fel bod y rhain yn llywio polisiau, penderfyniadau a gwasanaethau.

Gellir gweld enghreifftiau o asesiadau effaith ar gydraddoldeb ar ein gwefan. Gallwch ddarllen am y modd y mae'r broses ymgysylltu'n gweithio yn yr adroddiad Cyfathrebu yn ein Hadroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol ar ein gwefan.

### **Amcan Cydraddoldeb 6:**

#### **Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i adrodd am droseddau casineb, aflonyddwch a gwahaniaethu**

#### **Cydlyniant Cymunedol**

Mae'r Cyngor yn cydlynu Grŵp Cydlyniant Cymunedol gydag Aelodau yn dod o'r gymuned a chynrychiolwyr o'r Tîm Diogelwch Cymunedol, Heddlu De Cymru, a Gwirfoddolwyr Ieuencid yr Heddlu. Mae'n cyfarfod bob chwarter i fonitro ac ymateb i densiynau yn y Fro fel rhan o bartneriaeth aml-asiantaeth.

Mae'r Grŵp Cydlyniant Cymunedol wedi rhoi cynllun datblygu ar waith ac mae'n defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar-lein a chymdeithasol i gael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned. Mae wedi creu cysylltiadau â sefydliadau partner newydd.

Mae'r Grŵp Cydlyniant Cymunedol yn edrych ar adroddiadau ar droseddau casineb bob tri mis. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig. Mae ganddynt hefyd ddata ac astudiaethau achos ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, stopio a chwilio, a'r defnydd o rym. Mae'r Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol a'r Swyddog Troseddau Casineb yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro tensiynau yn y gymuned.

Mae Swyddog Troseddau Casineb De Cymru wedi darparu sesiynau allgymorth mewn ysgolion a charchardai i hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb a sut i roi gwybod am ddigwyddiadau.

Mae byrddau CONTEST Bro Morgannwg a Chaerdydd (byrddau Gwrthderfysgaeth) wedi uno. Mae Bwrdd CONTEST yn sicrhau bod swyddogion allweddol yn deall tensiynau cymunedol posibl a thueddiadau yn ymwneud ag eithafiaeth. Yn haf 2018, cytunodd y Bwrdd i ddatblygu proses 'Channel' ranbarthol. 'Channel' yw proses amlasiantaeth ymyrraeth gynnar a gynlluniwyd i ddiogelu pobl agored i niwed rhag cael eu tynnu i mewn i ymddygiad eithafol neu ymddygiad derfysgwyr treisgar. Mae 'Channel' yn gweithio mewn ffordd debyg i bartneriaethau diogelu presennol sydd wedi'u hanelu at amddiffyn pobl agored i niwed. Bydd hyn yn ei helpu i rannu arbenigedd ar draws y rhanbarth a chefnogi'r broses o gyfnewid adnoddau a gwybodaeth. Yn ei dro, bydd hyn yn meithrin gwell dealltwriaeth o dueddiadau ranbarthol.

Cefnogodd yr Uned Ranbarthol dros Gydlyniant Cymunedol ac Ymgysylltu â'r Gymuned sefydliad Criced Morgannwg i sicrhau cyllid i gyflwyno gweithdai i bobl ifanc. Cawsant gyllid drwy gymorth Adran Wrth-eithafiaeth y Swyddfa Gartref, dan eu rhaglen 'Adeiladu Prydain Gyda'n Gilydd'. Mae hyn wedi ariannu cyfres o weithdai 'Tu Hwnt i'r Ffiniau', gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o themâu sy'n gysylltiedig â throseddau casineb, hawliau dynol ac eithafiaeth.

Rhoddodd y Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol adborth i Fforwm Cydraddoldeb Hiliol Cymru gyfan mewn perthynas â chronfa troseddau casineb hiliol y dyfodol Llywodraeth Cymru.

Gweithiodd y Cydlynnydd ar y cyd â sefydliadau cymwys i ddatblygu ceisiadau lleol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn cael eu cefnogi'n briodol.

Yn 2019-2021, bydd gwaith y grŵp cydlyniant cymunedol i atal troseddau casineb yn y Fro yn cael ei ddatblygu ymhellach gan y Swyddog Cydlyniant a benodwyd yn ddiweddar, sydd wedi'i leoli yn y Tîm Diogelwch Cymunedol yng Ngorsaf Heddlu'r Barri.

### **Gwrth-fwlio mewn ysgolion**

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'n hysgolion i leihau bwlio. Canolbwyntiwn ar grwpiau sy'n agored i niwed sy'n fwy tebygol o ddioddef bwlio. Rydym wedi cyflawni hyn drwy:

- darparu 'pecyn cymorth meithrin gallu' i ysgolion sy'n cynnwys arfer da i ddelio â bwlio;
- monitro digwyddiadau bwlio ysgol fesul ysgol;
- rhannu'r wybodaeth hon gydag Ymgynghorwyr Her;
- monitro digwyddiadau bwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- datblygu model gwrth-fwlio enghreifftiol y mae pob ysgol wedi'i fabwysiadu;
- cefnogi a herio ymweliadau ag ysgolion i edrych ar ddata, gydag ymweliadau adolygu os oes angen;
- awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ar gyfer wythnos gwrth-fwlio;
- hyfforddiant diogelu i bob ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am fwlio a bwlio ar-lein;
- datblygu pecyn cymorth trawsrywiol i roi arweiniad i ysgolion ar y risg o fwlio ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc, gan amlinellu sut y gall ysgolion atal hyn.

Mae'r elfennau hyn canolbwyntio'n glir ar blant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion.

Caiff data ar nifer yr achosion o fwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig ei gasglu a'i fonitro i nodi a oes unrhyw dueddiadau y mae angen ymdrin â nhw. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dueddiadau o'r data cyfredol wedi'u nodi y mae angen gweithredu arnynt. Mae hyn yn dangos bod yr

amrywiaeth o ymyriadau sy'n cael eu defnyddio yn gweithio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod data cenedlaethol a rhai'r DU yn dangos bod rhai grwpiau yn wynebu mwy o risg o fwlio:

- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
- disgyblion anabl;
- disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDT);
- disgyblion o leiafrifoedd ethnig;
- disgyblion o gefndir crefyddol.

Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio'n agos ag ysgolion er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a chymryd camau i ddelio â bwlio.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Stonewall Cymru wedi darparu hyfforddiant sy'n pwysleisio bod gan blant a phobl ifanc yn aml nifer o nodweddion gwarchoddedig a bod hyn yn cynyddu'r perygl o fwlio. Mae hwn yn faes y byddwn yn ceisio ei ddatblygu yn y dyfodol.

Mae'r heriau wedi bod fel a ganlyn:

- sicrhau bod pob ysgol yn cwblhau'r ffurflen bwlio bob tymor;
- datblygu dealltwriaeth gyffredin o beth yw bwlio;
- ein gallu i fonitro gweithdrefnau gwrth-fwlio mewn ysgolion;
- mae nifer yr achosion o fwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth sy'n cael eu hadrodd yn isel.

Mae'r cymorth y mae'r Cyngor wedi'i roi i ysgolion wedi'u helpu i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae'r arolygiaeth ysgolion, Estyn, wedi cydnabod hyn. O'r ysgolion a arolygwyd ganddynt ers 2016, graddiodd Estyn 98% ohonynt fel naill ai'n dda neu ragorol ar gyfer cymorth a chyfarwyddyd lles a gofal.

## **Amcan Cydraddoldeb 7:**

### **Dod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd dioddefwyr cam-drin domestig a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau cam-drin domestig yn y gymuned**

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar i ddatblygu Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023. Mae hwn yn nodi sut y bydd partneriaid yn llunio ac yn cyflwyno ymatebion i bob math o gam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth. Y weledigaeth yw bod pobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg, yn cael y cyfle i fyw bywydau cadarnhaol ac annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a chamdriniaeth.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Domestig Arbenigol - Atal y Fro a Thîm Cefnogi Pobl y Cyngor. Gyda'n gilydd rydym yn sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn gallu cael cymorth, cefnogaeth ac amddiffyniad. Mae hyn yn cynnwys: lloches, tai ail-gam a gwasgaredig; a chwmsela o ran mynediad i raglenni perthnasol, gan gynnwys cefnogaeth allgymorth.

Rydym yn cyfeirio at wasanaethau arbenigol yn ôl yr angen megis BAWSO, Prosiect DYN, Pont Enfys a byw heb ofn.

Trefnir hyfforddiant a diwrnodau codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau a hysbysebiri yn eang ar draws Bro Morgannwg. Er enghraifft, cynhelir ymgyrchoedd a digwyddiadau ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn ac fe'u targedir o amgylch digwyddiadau penodol yn y calendr megis ymgyrch y Rhuban Gwyn, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, 16 diwrnod o weithredu, Pride, Wythnos Diogelu. Rydym yn canolbwyntio ar bynciau perthnasol yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn wyneb yn wyneb, yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, cynadleddau, cyfryngau cymdeithasol, radio, teledu a'r wasg. Bydd gwybodaeth hefyd ar daflenni, pennau llythyrau, a negeseuon e-bost.

Mae Atal y Fro yn hysbysebu ei wasanaethau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wasg a digwyddiadau hyfforddi ymwybyddiaeth. Mae'n gweithio gyda sefydliadau statudol a'r trydydd



sector i sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu hysbysebu i gynifer o bobl â phosibl, gan gynnwys y Fro wledig.

Cyflwynir adroddiadau chwarterol a blynyddol i Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Cyflawni Rhanbarthol. Rydym yn rhoi adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig. Rydym hefyd yn adrodd i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae'r Cyngor yn mynd ati i gefnogi gwaith Fforwm 50+ y Fro i gynyddu amlygrwydd a gwasanaethau ar draws Bro Morgannwg.

## **Amcan Cydraddoldeb 8:**

### **Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig**

Cesglir data yn ôl nodweddion gwarchoddedig a chaiff ei adrodd yn flynyddol yn Adroddiad Gwybodaeth am Gyflogaeth y Cyngor. Mae hyn yn rhan o'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol (Atodiad 5), a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

Rydym yn coladu, yn adrodd ac yn cyhoeddi ein Polisi Cyflogau Cyflogeion Blynyddol. Mae hyn yn darparu fframwaith i wneud yn siŵr bod ein cyflogeion yn cael eu talu'n deg ac yn wrthrychol ac yn sicrhau ei fod yn broses agored a thryloyw.

Mae'r Cyngor yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal fel y gallant fanteisio ar brofiad gwaith a llwybrau prentisiaeth i gefnogi eu datblygiad gyrfa parhaus. Mae hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella cyfraddau cyflogaeth pobl ifanc sydd wedi'u tangynrychioli yn ein gweithle.

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc, pobl hŷn, gweithwyr a ddiswyddwyd, rhieni sengl, a phobl anabl. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn parhau i gadw ei statws "Hyderus o ran Anabled" ac mae'n gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith leol i gyflawni camau craidd. Er enghraifft,

darperir cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a/neu sy'n ddi-waith yn yr hirdymor.

Mae darparu cyfleoedd profiad gwaith i berson ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol drwy gynllun Stonewall yn cael ei gynllunio.

Mae gan y Cyngor gynllun gweithlu sy'n cynnwys camau gweithredu er mwyn sicrhau bod gweithwyr y Cyngor yn adlewyrchu'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf:

- Ar 31 Mawrth 2016, roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 8.88%.
- Ar 31 Mawrth 2017, roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 8.81%.
- Ar 31 Mawrth 2018, roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 8.01%.
- Ar 31 Mawrth 2019, roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 5.48%

Cyflawnwyd hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Cyflwynwyd y Cyflog Byw ym mis Ebrill 2016. Cafodd hyn ei wella drwy'r Cyngor yn penderfynu rhoi'r gorau i ddefnyddio'r pwynt tâl isaf o fewn ei strwythur. Roedd hyn yn cael effaith fwy manteisiol i fenywod yn y gweithlu.

Bu newid sylweddol o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Prif Swyddogion. Mae yna hyd yn oed fwy o gydbwysedd erbyn hyn. Gwnaed y rhan fwyaf o benodiadau Prif Swyddogion yn dilyn proses gystadleuol lle'r oedd ymgeiswyr mewnol yn llwyddiannus. Mae hyn yn dyst i ddatblygiad rheoli a chynllunio olyniaeth y Cyngor.

Bu newid sylweddol o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Prif Swyddogion. Mae yna hyd yn oed fwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau (un yn fwy benywaidd na gwrywaidd) sydd wedi arwain at newid sylweddol yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Mae'r Cyngor wedi mynychu ffeiriau swyddi ar gyfer ysgolion, colegau, prifysgolion a gyrfaeodd lleol er mwyn hyrwyddo'r ystod o yrfaeodd a swyddi yn y Cyngor. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddileu stereoteipiau gyrfa a swyddi a herio syniadau pobl am y mathau o swyddi sy'n agored iddynt.

Mae'r system arfarnu wedi'i diwygio. Mae hyn yn rhoi cyfle i staff gyflwyno syniadau am ddatblygu eu potensial. Gallant archwilio cyfleoedd datblygu eu hunain a fydd yn cyd-fynd ag anghenion busnes. Ategir hyn gan Gaffi Arweinyddiaeth y Cyngor sy'n hyrwyddo datblygiad personol gweithwyr, yn eu helpu i rwydweithio ac i chwalu rhwystrau.

Mae adroddiadau ar y bwlch cyflog ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig wedi'u cwblhau'n llwyddiannus. Caiff y data ei gynnwys yn yr adroddiad diweddaraf ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd data yn cael ei ddarparu ar gyfer 2017/18 a 2018/19 er mwyn roi cymhariaeth.

Mae denu mwy o bobl ifanc i weithio gyda ni yn flaenoriaeth gan nad yw cyfran y staff ifanc a gyflogwn yn adlewyrchu cyfran y bobl ifanc yn ein cymuned. Mae defnyddio prentisiaethau yn fesur allweddol i gefnogi'r amcan hwn. Mae'r Cyngor wedi cynnig, ac yn parhau i gynnig, nifer o brentisiaethau sylfaen i bobl ifanc sy'n 16-24 oed. Mae 23 o brentisiaid yn y Cyngor ar hyn o bryd. Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018, gwnaethom gyflogi prentisiaid yn bennaf ar sail asiantaeth. O fis Mawrth 2018, gwnaethom gyflogi prentisiaid yn uniongyrchol.

Bwriedir parhau i fynychu ffeiriau swyddi ysgolion, colegau, prifysgolion a gyrfaeodd lleol er mwyn parhau i hyrwyddo'r amrywiaeth o yrfaeodd a swyddi sydd gennym yn y Cyngor. Bydd ffocws yn parhau ar ddileu'r stereoteipiau a'r rhagdybiaethau gyrfaol a'r swyddi sydd gan lawer o bobl.

Adroddir ar gynnydd ar y gwaith hwn bob blwyddyn yn adroddiad gwybodaeth am gyflogaeth y cyngor sy'n ffurfio rhan o'r adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol a gyhoeddir ar ein gwefan.

## Amcanion cydraddoldeb – yr hyn y byddwn yn ei wneud

Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o gamau gweithredu i'w cymryd dros y pedair blynedd nesaf rhwng 2020 a 2024.

Credwn y bydd llawer o'r amcanion cydraddoldeb hyn o fudd i'r holl grwpiau gwarchoddedig ac y byddant yn torri ar draws nodweddion gwarchoddedig. Wrth i ni weithio tuag atynt, rydym yn gwneud cynnydd o ran cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r hyn y mae angen i ni ei wneud er mwyn diwallu anghenion grwpiau gwarchoddedig.

Fodd bynnag, gan fod ein hadnoddau yn gynyddol brin, yr ydym wedi dewis canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y mae ymchwil, data a phrofiad yn dweud wrthym fod yr angen mwyaf.

Bydd llawer o'r camau gweithredu hefyd yn cyfrannu at gyflawni mwy nag un o'n hamcanion. Mae'r adran hon yn rhoi mwy o wybodaeth am bob un o'n hamcanion cydraddoldeb 2020-2024, pam rydym wedi eu dewis, beth rydym yn ceisio ei gyflawni a'r gweithgareddau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.

### Amcan Un:

#### **Darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion trigolion a chymunedau lleol.**

Mae ein hamcanion cydraddoldeb blaenorol wedi cael mwy o ffocws mewnol. Adlewyrchai hyn yr angen i sefydlu, datblygu, neu wella systemau i gasglu data ar nodweddion gwarchoddedig ein defnyddwyr gwasanaeth ac i ymgysylltu â hwy. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall pwy yw ein defnyddwyr gwasanaeth ac i nodi bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth. Mae hyn yn arfer wedi'i sefydlu'n well erbyn hyn.

Yn awr, mae angen i'r ffocws newid i edrych ar sut y bydd y wybodaeth a'r codi ymwybyddiaeth hon yn gwella canlyniadau i grwpiau gwarchoddedig. Mae angen i ni ddefnyddio ein gwybodaeth a'n profiad i barhau i wella ein dealltwriaeth o anghenion amrywiol pobl ac unrhyw rwystrau i'n gwasanaethau a allai fodoli.

Bydd y Cyngor hefyd yn datblygu'r gweithle i sicrhau ei fod yn cynnig amgylchedd cynhwysol i'n holl gydweithwyr. Mewn ymateb i ymchwil yn 'A yw Cymru'n Decach? 2018', byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn gefnogi datblygiad aelodau etholedig a hyrwyddo rôl cyngorwyr.

## Amcan 2:

**Cefnogi dysgu a chyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf difreintiedig.**

At ei gilydd, mae canlyniadau cyrhaeddiad ar gyfer y grwpiau lle rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion wedi bod yn dda ond mae angen canolbwyntio'n barhaus.

O ran gwaharddiadau ysgol, gwnaed cynnydd da mewn rhai meysydd ond bu cynnydd o ran problemau mewn meysydd eraill a bydd hwn yn parhau i fod yn faes ffocws i'n cynllun newydd.

Mae llawer o waith wedi'i wneud ar wrth-fwlio mewn ysgolion. Mae ymchwil yn dangos bod rhai grwpiau gwarchoddedig yn fwy agored i fwlio a byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i nodi ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â bwlio.

Gan ragweld y bydd y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd yn cael ei chyflwyno o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, byddwn yn canolbwyntio hefyd ar asesu effaith ein gwaith ar y rheini sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.

## Amcan 3:

**I gefnogi diogelwch a lles pobl gartref ac yn eu cymuned.**

Mae gwaith ein hamcanion cydraddoldeb blaenorol wedi canolbwyntio ar ddiogelwch, sef troseddau casineb a cham-drin domestig. Ar gyfer ein cynllun newydd, byddwn yn parhau â'r gwaith hwn. Fodd bynnag, bydd y ffocws yn ehangach i gynnwys lles, gan edrych ar anghenion tai a mynediad i drafndiaeth a gweithgareddau eraill.

#### Amcan 4:

**I warchod y cyfleusterau yn ein hamgylchedd lleol sy'n golygu bod pobl ag ystod amrywiol o anghenion yn gallu cymryd rhan yn y gymuned leol.**

Nid oedd ein hamcanion cydraddoldeb blaenorol yn mynd i'r afael yn benodol â mynediad i'r amgylchedd lleol a chyfranogi yn y gymuned leol. Mae ein hymgysylltiad â sefydliadau lleol sy'n cynrychioli anghenion grwpiau gwarchodedig wedi dweud wrthym ba mor bwysig yw hyn. Byddwn yn ystyried yr anghenion hyn wrth i ni weithio gyda'n partneriaid i gynnal cyfleusterau lleol a sicrhau bod grwpiau gwarchodedig yn gwybod beth sydd ar gael iddynt.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor wedi datblygu'r amcanion a'r gweithredoedd cydraddoldeb strategol canlynol.

Ein hamcan corfforaethol cyntaf yw **gweithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer.**

### **Amcan Cydraddoldeb Strategol Un**

#### **Gweithio mewn ffordd sy'n diwallu anghenion trigolion a chymunedau lleol.**

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion amrywiol ein trigolion a'n cymunedau lleol. Wrth wneud hyn, byddwn yn meddwl am bobl a allai fod dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig.

Rydyn ni eisiau gwneud hynny ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio yma nawr. Yr ydym hefyd am wneud gwelliannau parhaol o ran cydraddoldeb a thegwch i genedlaethau'r dyfodol.

Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n darparu amgylchedd agored a chynhwysol ar gyfer ein cyflogaion, sy'n cynnwys amrywiaeth a chyfle cyfartal.

### **Camau Gweithredu**

1. Gwella'r modd yr ydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu gyda grwpiau gwarchoddedig am ein gwaith, ein penderfyniadau a'u heffaith fel y gallwn ystyried anghenion grwpiau gwarchoddedig yn awr ac yn y dyfodol.
2. Datblygu ein diwylliant cryf o wasanaeth cwsmeriaid da yn unol â'n gwerthoedd er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal ac ymateb i anghenion amrywiol ein cwsmeriaid.

3. Cryfhau cyfle cyfartal yn ein cyflogaeth drwy gynnwys ein gwerthoedd, cynyddu amrywiaeth, cael gwared ar rwystrau, a chefnogi staff o bob cefndir i gyrraedd eu potensial mewn amgylchedd cynhwysol.
4. Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl.
5. Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb a hyrwyddo rôl cyngorwyr i annog cyfraniadau gan bob rhan o'r gymuned.



Ein hail amcan corfforaethol yw **cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.**

#### **Amcan Cydraddoldeb Strategol Dau**

Cefnogi dysgu a chyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf difreintiedig.

Rydym am i breswylwyr gael cyfle teg i ddod yn hyddysg ac yn fedrus, ac i gyflawni eu potensial wrth iddynt ddatblygu a dysgu. Rydym wedi ymrwymo i annog uchelgais pobl ac i sicrhau bod unigolion a chymunedau yn gallu ffynnu a chyflawni eu gorau.

#### **Camau Gweithredu**

1. Cyflawni a gwerthuso rhaglenni ac ymyriadau gyda'r nod o fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad er mwyn sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar anfantais economaidd-gymdeithasol, anabledd, rhyw, hil a nodweddion gwarchoddedig eraill.
2. Ceisio lleihau cyfraddau gwahardd ar gyfer plant â nodweddion gwarchoddedig penodol, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd ac anabledd.
3. Dadansoddi data bwlio a gesglir gan ysgolion, gan gynnwys bwlio hiliol, i nodi tueddiadau ac adolygu strategaethau gwrth-fwlio fel bod datrysiadau effeithiol ar waith.
4. Gweithio gyda phartneriaid i gynorthwyo pobl i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

Ein trydydd amcan corfforaethol yw **cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned**.

### **Amcan Cydraddoldeb Strategol Tri**

I gefnogi diogelwch a lles pobl gartref ac yn eu cymuned.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i wneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel gartref ac yn y gymuned a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau sy'n cefnogi eu lles cyffredinol. Rydym yn rhoi'r cyngor, gofal a'r gefnogaeth angenrheidiol i bobl pan fydd ei angen arnynt.

### **Y camau gweithredu byddwn yn cymryd**

1. Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno rhaglenni ataliol a rhoi cyngor a chymorth i bobl sy'n dioddef cam-drin, aflonyddu, troseddau casineb neu fwlio, gan gynnwys menywod o leiafrifoedd ethnig, menywod anabl, menywod ag anghenion cymhleth, plant a phobl ifanc, a dynion.
2. Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchoddedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.
3. Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafndiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn.

Ein pedwerydd amcan corfforaethol yw **parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.**

#### **Amcan Cydraddoldeb Strategol Pedwar**

Sicrhau bod amrywiaeth eang o bobl yn gallu mwynhau ein hamgylchedd lleol.

Rydym yn deall sut mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at les unigolion a'r gymuned.

Rydym wedi ymrwymo i barchu a gwella ein hamgylchedd er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i'n hardal lleol, yn gwybod amdani, ac yn gallu ei mwynhau.

#### **Y camau gweithredu byddwn yn cymryd**

1. Ystyried anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig wrth weithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill i ddarparu a chynnal cyfleusterau lleol.
2. Hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol fel, lle y bo'n bosibl, maent yn hygyrch ac yn hysbys i bob grŵp gwarchoddedig.

## Monitro Cynnydd a Chyhoeddi Canlyniadau

Bydd y Cyngor yn parhau i wirio cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ac yn adrodd ar hyn bob blwyddyn i dîm rheoli corfforaethol y Cyngor, y Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb a'r Cabinet yn yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol. Caiff hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae'n cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.

Bydd gwybodaeth arall am gydraddoldeb a chyflogaeth yn cael ei hategu bob blwyddyn a chaiff hyn ei chyhoeddi'n flynyddol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori cyn bo hir ar gyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn adolygu ein hamcanion cydraddoldeb strategol a'n camau gweithredu pan ddaw'n gliriach ynghylch yr hyn y bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ei wneud pan fydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym ym mis Ebrill 2020. Yn y cyfamser, rydym wedi cynnwys camau gweithredu a fydd yn ein helpu i feddwl am effaith ein gwaith ar bobl sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.

## I gael mwy o wybodaeth:

### Ewch i'n gwefan

[www.valeofglamorgan.gov.uk](http://www.valeofglamorgan.gov.uk)

### Newyddion a diweddariadau – yn uniongyrchol i'ch mewnlwch

Gallwch danysgrifio i wasanaeth Cyswllt UnFro a chael y wybodaeth ddiweddaraf am newyddion, digwyddiadau a diweddariadau eraill, gan gynnwys nodiadau atgoffa am gasglu gwastraff ac ailgylchu yn wythnosol. Cofrestrwch ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

### Cyfryngau Cymdeithasol

Cadwch i fyny gyda'r newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bro Morgannwg.

Dilynwch @VOGCouncil ar Twitter neu fel Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.

Os oes gennych ymholiad am wasanaethau'r Cyngor, cysylltwch â ni naill ai ar:

- e-bost at [c1v@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:c1v@valeofglamorgan.gov.uk);
- neu ffoniwch 01446 700111